



# Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democraidd  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

## Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN**

## Dyddiad ac Amser

**4.00 y.h., DYDD MERCHER, 29AIN MAWRTH, 2023**

## Lleoliad

### **Cyfarfod Rhithiol**

**I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni.**

## Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 21 Mawrth 2023)

# CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL A.H.N.E LLŶN

## AELODAETH

### Cynghorwyr Gwynedd

Dafydd Davies  
John Brynmor Hughes  
Gareth Tudor Jones  
Gareth Williams  
Gruffydd Williams

### Eraill

Enwebeion Cynghorau Cymuned Aberdaron, Buan, Botwnnog, Clynnog, Llanbedrog, Llanaelhaearn, Llanengan, Nefyn, Pistyll a Thudweiliog.

Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd

### Enwebeion yr asiantaethau/sefydliadau canlynol

Ymddiriedolaeth Genedlaethol,  
Cyfoeth Naturiol Cymru,  
Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor,  
Cyfeillion Llŷn,  
Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr,  
Undeb Amaethwyr Cymru,  
Partneriaeth Dwristiaeth Abersoch a Llŷn,  
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig/CPRW,  
Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd,  
Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn.  
FWAG Cymru

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellr eu hystyried.

## 4. COFNODION

5 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2022, fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR

10 - 11

I rannu Gwybodaeth ag Aelodau o amcanion sydd wedi eu cynnwys oddi fewn Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cyngor Gwynedd ac AHNE Llŷn.

## 6. CYNLLUN STRATEGOL AR GYFER YR ECONOMI YMWELD

12 - 14

Bleddyn Jones, Swyddog AHNE, i gyflwyno adroddiad ar Gynllun Strategol ar gyfer Yr Economi Ymweld.

## 7. PROSIECT TIRWEDDAU CYNALIADWY LLEOEDD CYNALIADWY

15 - 16

Bleddyn Jones, Swyddog AHNE i gyflwyno adroddiad ar Brosiect Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy.

## 8. Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

17 - 18

Morus Llwyd Dafydd, Swyddog Prosiect AHNE i roi diweddariad i Aelodau ar Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.

## 9. DYNODIAD AWYR DYWYLL

19 - 20

Morus Llwyd Dafydd, Swyddog Prosiect AHNE i gyflwyno Gwybodaeth ar y bwriad o weithio tuag at cais statws Awyr Dywyll i ardal Pen draw Llŷn.

# Eitem 4

CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 27/06/2022

---

## CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL LLŶN 27/06/2022

---

### Yn bresennol:

T. Victor Jones (Cadeirydd) (Cyngor Cymuned Llanbedrog)

**Aelodau:** Y Cynghorwyr Gareth Williams, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Gruffydd Williams, Dafydd Davies ac Angela Russell (Pencampwr Cefn Gwlad Cyngor Gwynedd) ynghyd ag Andy Godber (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Noel Davey (Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Jina Gwyrfai (Cyngor Cymuned Llanaelhaearn), Brett Garner (Cymdeithas Pysgotwyr Llŷn), Morgan Jones-Parry (Fforwm Mynediad Arfon a Dwyfor), Sian Parri (Cyngor Cymuned Tudweiliog), Sianelen Plemming (Cyngor Cymuned Pistyll), Gillian Walker (Cyfeillion Llŷn) a Wenda Williams (Cyngor Cymuned Aberdaron).

**Swyddogion:** Bleddyn P. Jones (Swyddog AHNE Llŷn), Morus Llwyd Dafydd (Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn), Wyn Williams (Rheolwr Cefn Gwlad) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

### 1. ETHOL CADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd T. Victor Jones yn Gadeirydd y Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn am y flwyddyn 2022/23.

### 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Sian Parri yn Is-gadeirydd y Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn am y flwyddyn 2022/23.

### 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Andrew Davidson (Prif Archeolegydd - Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd), Eirian Allport (Cyngor Cymuned Clynnog Fawr) a Molly Lovatt (Cyfoeth Naturiol Cymru).

### 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi.

### 5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

### 6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Cydbwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2022, fel rhai cywir.

### 7. CYNLLUN RHEOLI'R AHNE

Cyflwynwyd yr adroddiad ar Gynllun Rheoli'r AHNE gan nodi bod gan y Cydbwyllgor rôl i'w chwarae yn y broses o baratoi, cydgordio ac adolygu'r Cynllun. Nodwyd bod y

Cynllun Rheoli presennol wedi ei ddyddio ac angen ei adolygu. Adroddwyd bod gwaith cefndirol eisoes wedi ei wneud yn ogystal â chomisiynu diweddariad o Adroddiad o Gyflwr yr AHNE. Mae crynodeb o'r prif ganfyddiadau wedi ei gynnwys gyda'r adroddiad fel atodiad 1.

Darparwyd gwybodaeth ar y camau nesaf fydd yn cynnwys adolygu nodau, amcanion a pholisïau'r Cynllun Rheoli presennol ac awgrymu newid rhai agweddau. Soniwyd am yr amserlen a'r hyn a fwriedir ei gwblhau gan gynnwys y cyfnod o ymgynghori ac ystyried yr ymatebion yn 2023. Anelwyd i fabwysiadu a gweithredu'r Cynllun Rheoli diwygiedig cyn diwedd 2023.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Gwnaethpwyd sylw am y wybodaeth amaethyddol yn yr adroddiad o gyflwr yr AHNE oedd yn dangos lleihad o 17% yn y defnydd tir ar gyfer tyfu cnydau o 2008-2012. Cwestiynwyd pa mor ddibynadwy yw'r wybodaeth.
- Mynegwyd pwysigrwydd tynhau'r warchodaeth dros adeiladau traddodiadol a chyfeiriwyd at geisiadau cynllunio am estyniadau sy'n mynd yn groes i gymeriad tai traddodiadol. Credwyd y dylid cryfhau'r drefn â'r sylwadau sy'n cael eu derbyn gan yr AHNE ar geisiadau cynllunio.
- Cyfeiriwyd at y gwaith cyfredol mae Partneriaeth Tirlun Llŷn yn ei wneud efo'r Strategaeth Cysylltedd i geisio gwella'r arfordir yn Llŷn yn sgil yr argyfwng natur a newid hinsawdd. Gwerthfawrogir pe bai'r Uned AHNE yn rhan o'r broses yma.
- Credwyd y dylid cydnabod y dirywiad sylweddol sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd yn edrychiad yr AHNE ac yn yr iaith Gymraeg a'i bod yn bwysig nodi hyn yn yr adroddiad.
- Cydnabuwyd bod cynefinoedd a gwarchod byd natur yn bwysig ond amlygwyd mai cynhyrchu bwyd yw prif nod y tirlun a dylid sicrhau bod digon o dir yn cael ei glustnodi i'r pwrpas hwn.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Bod y wybodaeth yn yr adroddiad o gyflwr yr AHNE wedi ei ddyddio. Nodwyd ei bod wedi bod yn heriol i'r ymgynghorwyr dod o hyd i wybodaeth ddiweddar. Bydd y Swyddog AHNE yn ceisio dilyn fyny efo Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru er mwyn derbyn gwybodaeth ddiweddar ar gyfer y cynllun.
- Bod yr uned AHNE yn ymgynghorydd ac yn darparu sylwadau ar geisiadau cynllunio. Credwyd y bydd cyfle i geisio dylanwadu pan fydd y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ddiweddarau.
- Bydd yr Uned AHNE yn dod i gysylltiad efo'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ynglŷn â chysylltedd ar hyd yr arfordir wrth adolygu'r cynllun.
- Eglurwyd bod adroddiad llawn yn bodoli ond mae crynodeb yn unig sydd wedi ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor. Nodwyd bod sylwadau am ddiwylliant ac iaith wedi eu hadnabod ac yn cael eu cynnwys yn y cynllun.

## **PENDERFYNIAD**

**Derbyn y wybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad ar Gynllun Rheoli'r AHNE.**

## **8. AELODAETH CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL AHNE LLŶN**

Darparwyd gwybodaeth am aelodaeth y Cydbwyllgor gan nodi bod trefn mewn lle i gyfnewid yr Aelodau o Gyngor Gwynedd yn dilyn yr etholiadau lleol. Cadarnhawyd yr Aelodau fydd yn derbyn lle ar y Cydbwyllgor ynghyd â'r Pencampwr Cefn Gwlad.

Soniwyd am y seddi gwag sy'n bodoli. Bydd y Swyddog AHNE yn ceisio ail gysylltu â rhai asiantaethau i weld os ydynt am anfon cynrychiolydd; cydnabuwyd bod rhai heb fynychu ers blynyddoedd. Darparwyd yr adroddiad am bresenoldeb yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor ers 2019 fel y gofynnwyd amdano yng nghyfarfod diwethaf y Cydbwyllgor.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Nodwyd bod llai o Gynghorwyr yn bodoli ers yr etholiadau lleol ym mis Mai yn sgil newid ffiniau sydd wedi arwain at wardiau mwy. Holwyd os oes posib ail edrych ar yr aelodaeth i roi cynnig i fwy o Gynghorwyr allu mynychu.
- Pryderwyd bod rhai Aelodau sydd â diddordeb mynychu yn methu allan oherwydd y system cylchdroi sy'n bodoli tra bod eraill sydd wedi derbyn lle ddim yn mynychu.
- Holwyd pam bod y Cynghorydd dros ward Llanystumdwy ddim yn cael ei gynnwys o fewn yr aelodaeth o ystyried bod rhan o'r ward bellach o fewn ffiniau a thiriogaeth yr AHNE.

Mewn ymateb nodwyd:

- Bod y Swyddog AHNE wedi derbyn cyngor cyfreithiol na fydd yn bosib gwahodd mwy o Gynghorwyr Cyngor Gwynedd i fod yn aelodau o'r Cydbwyllgor am ei bod yn bwysig cadw cydbwysedd rhwng Cynghorwyr Cyngor Gwynedd ac aelodau a chynrychiolwyr eraill. Credwyd bod y drefn bresennol o 6 Cynghorydd Cyngor Gwynedd â'r Pencampwr Cefn Gwald yn gweithio'n dda.
- Bydd y Swyddog AHNE yn edrych mewn i'r mater o ward Llanystumdwy a ffiniau'r AHNE erbyn y cyfarfod nesaf.

## **PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad ar Aelodaeth y Cydbwyllgor Ymgynghorol.**

## **9. CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY**

Darparwyd yr adroddiad ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i aelodau'r Cydbwyllgor er mwyn hysbysu'r Cydbwyllgor o'r bwriad ynghylch y Cynllun. Eglurwyd ei fod yn ddogfen strategol sy'n gosod cyfeiriad a blaenoriaethau ar gyfer y gwaith o gynnal a datblygu'r rhwydwaith hawliau tramwy ac asedau mynediad eraill yng Ngwynedd.

Esboniwyd bod CGHT newydd wedi ei baratoi; mabwysiadwyd y Cynllun gwreiddiol yn 2007. Adlewyrchai'r Cynllun newydd y newidiadau mewn adnoddau a deddfwriaeth ers y cyfnod hwnnw.

Nodwyd bod y CGHT newydd bellach yn fyw ar safle we'r Cyngor a bod modd darparu sylwadau ar y Cynllun yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus fydd yn parhau hyd at ganol fis Medi 2022. Ychwanegwyd bod neges wedi ei anfon i glercod Cynghorau Cymuned a Thref am yr ymgynghoriad a bydd Aelodau hefyd yn derbyn neges yn fuan. Y gobaith yw y gellir edrych ar ymatebion yr ymgynghoriad yn yr Hydref cyn symud ymlaen i fabwysiadu'r Cynllun.

Nid oedd sylwadau na chwestiynau gan yr aelodau.

## **PENDERFYNIAD**

**Derbyn y wybodaeth a nodwyd yn yr adroddiad.**

## 10. Y GRONFA DATBLYGU CYNALIADWY

Darparwyd diweddariad i'r Cydbwyllgor am sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy hyd yma a'r datblygiadau sydd ar y gweill. Cyfeiriwyd at wariant blwyddyn ariannol 2021/22 gan adrodd bod £100,000 yn y Gronfa a llwyddwyd i ddyrannu'r cyfan.

Cadarnhawyd bod cyllideb wedi ei gadarnhau ar gyfer y dair mlynedd nesaf. Golyga hyn bod £100,000 yn y gronfa ar gyfer 2022/23 a chyllideb o £100,000 ar gael ar gyfer 2023/24 a 2024/25. Eglurwyd bod hyn yn rhoi cyfle i brosiectau gael eu hariannu dros gyfnod o ddwy neu dair blynedd pe bai angen.

Ychwanegwyd bod Llywodraeth Cymru wedi newid Rheoliadau'r Gronfa gan roi mwy o bwyslais ar y Ddeddf Llesiant yn ogystal â blaenoriaethu prosiectau sy'n cyd-fynd ar themâu Adfer Natur a Dad-garboneiddio. Nodwyd bod y gwaith o hyrwyddo'r Gronfa eisoes wedi dechrau ac anogir yr aelodau i rannu gwybodaeth am y cyfle i ymgeisio am grantiau o'r gronfa.

I gloi eglurwyd bod angen ethol aelodau newydd i'r Panel Grantiau. Esboniwyd bod lle i 8 aelod o'r Cydbwyllgor Ymgynghorol i fod yn aelodau o'r Panel Grantiau. Yn dilyn arweiniad, awgrymwyd i bedwar o'r aelodau blaenorol barhau a dewis pedwar aelod newydd. Nodwyd mai'r bwriad yn y dyfodol fydd i gyfnewid dau aelod o'r Panel Grantiau bob dwy flynedd. Gofynnwyd i'r Cydbwyllgor dderbyn y wybodaeth ac ethol aelodau newydd i'r Panel Grantiau.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn gan aelodau:-

- Holwyd am y sefyllfa ynglŷn â chael cworwm. Yn ogystal gofynnwyd pam na chaiff holl aelodau'r Cydbwyllgor Ymgynghorol fod yn aelodau o'r Panel Grantiau.
- Mynegwyd awydd gan aelodau presennol o'r Panel Grantiau i barhau i fod yn aelodau, nid oedd awydd gan neb i sefyll lawr.
- Gwnaethpwyd cynnig gan yr Aelodau i gadw aelodaeth y Panel Grantiau fel ag yr oedd gan gynnig lle i un aelod newydd i lenwi'r sedd wag. Gofynnwyd a oedd hyn yn dderbyniol gan y Swyddog AHNE.
- Mynegwyd sylw bod llawer o brosiectau bach angen eu hariannu yn Llŷn a gofynnwyd a oedd modd cadw swm penodol ar gyfer prosiectau sy'n gofyn am £1,000 neu lai. Teimlwyd bod prosiectau bach yn dueddol o golli allan am eu bod yn gofyn am symiau weddol isel.

Mewn ymateb, nodwyd:

- Mai 1/3 yw cworwm felly bydd angen o leiaf traean o aelodau'r Panel Grantiau fod yn bresennol ymhob cyfarfod.
- Eglurwyd bod 8 aelod ar y Panel Grantiau eisoes yn nifer uchel o gymharu ag AHNE eraill e.e. Môn sydd â 3 aelod. Atgoffwyd yr aelodau mai 6 aelod oedd yn arfer cynrychioli'r Panel Grantiau ond codwyd nifer yr aelodau i 8 a chredwyd bod y nifer yma wedi gweithio'n dda.
- Eglurodd y Swyddog AHNE bod 1 sedd wag ar y Panel Grantiau. Bydd angen i 3 aelod presennol o'r Panel sefyll lawr ac yna enwebu 4 cynrychiolydd newydd.
- Nododd y Swyddog AHNE bod y rheoliadau gan Lywodraeth Cymru yn awgrymu cylchdroi aelodau'r Panel Grantiau ond os yw pawb yn gytûn bod modd gweithredu'r hyn a ddymunir efo aelodau presennol yn parhau gan ychwanegu un aelod newydd i lenwi'r sedd wag. Pwysleisiwyd bod hyn yn dderbyniol am y tro ond mewn dwy flynedd bydd angen tynnu dau aelod ac ychwanegu dau newydd.
- Cadarnhawyd mai'r aelodau'r Panel Grantiau fydd: y Cynghorwyr Gareth Williams, Gruffydd Williams ac Angela Russell yn ogystal ag Eirian Allport, Noel Davey, T. Victor Jones, Morgan Jones-Parry a Sian Parri.

- Eglurwyd ei bod yn sialens i wario £100,000 mewn blwyddyn a chydabuwyd bod llawer o'r prosiectau yn rhai bychain yn Llŷn. Credwyd y bydd mwy o hyblygrwydd yn y dair mlynedd nesaf i ariannu prosiectau llai gan fod cadarnhad wedi ei dderbyn o'r £100,000 am y dair mlynedd nesaf i'r gronfa.

**PENDERFYNIAD**

- a) Derbyn yr adroddiad am sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy.
- b) Enwebwyd y Cynghorydd Angela Russell i gymryd y sedd wag ar y Panel.

Dechreuodd y cyfarfod am 4.00yh a daeth i ben am 4.55yh

---

**CADEIRYDD**



# Eitem 5

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	Mawrth 29ain 2023
<b>TEITL</b>	Cynllun Gweithredu Adfer Natur
<b>PWRPAS</b>	Cyflwyno gwybodaeth
<b>AWDUR</b>	Arweinydd Uned Bioamrywiaeth
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr Wybodaeth

## 1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Roedd 2019 yn drobwynt o ran cydnabod yr argyfwng natur a chynyddu camau gweithredu ar gyfer bioamrywiaeth. Fe gyhoeddwyd argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru, gyda Chyngor Gwynedd ei hun yn dilyn ym mis Mawrth 2019. Mewn ymateb, cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Genedlaethol a rhan 1, “Ein strategaeth ar gyfer Natur”, yn nodi’r ymrwymiad i wrthdroi’r golled mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a’r amcanion ar gyfer gweithredu ([Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru 2020 i 2021 \(llyw.cymru\);](#)). Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi datgan argyfwng natur ym mis Mehefin 2021.
- 1.2 Yn dilyn ymlaen o hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob Awdurdod Lleol, Parc Cenedlaethol ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ledled Cymru i gynhyrchu Cynllun Gweithredu eu hunain, yn manylu ar sut y dylai pob ardal fynd i'r afael ac adfer natur.

## 2.0 CYNLLUN GWEITHREDU ADFER NATUR GWYNEDD A LLŷN

- 2.1 Mae Gwynedd a Llŷn wedi penderfynu cynhyrchu Cynllun Gweithredu ar y cyd, a fydd nid yn unig yn anelu at fynd i'r afael â'r amcanion cenedlaethol, ond hefyd yn mynd i'r afael â'r heriau a'r pryderon amgylcheddol yn nes at adref. Er enghraifft, pan ofynnwyd i gymunedau Llŷn beth sy'n dda am eu hardal yn ystod ymgynghoriadau diweddar ar gyfer prosiect Ardal Ni, “Amgylchedd ac agosatrwydd yn atyniadau naturiol e.e. mynyddoedd, lan y môr a chefn gwlad” sgoriodd uchaf. Rydym am sicrhau bod gennym gynllun yn ei le sy'n sicrhau bod ein cymunedau a thrigolion lleol ar draws Gwynedd a Llŷn yn gallu parhau i fwynhau ac elwa o'n byd natur ein hunain.
- 2.2 Mae'r Cynllun Gweithredu ei hun yn ddogfen bolisi yr ydym yn ei chynhyrchu a fydd yn cynorthwyo adferiad natur sir Gwynedd ac Ardal o Harddwch Llŷn. Mae'r ddogfen wedi'i hanelu at amrywiaeth eang o randdeiliaid, partneriaid, grwpiau ac unigolion sydd â diddordeb mewn adferiad byd natur neu sy'n allweddol iddo.
- 2.3 Byddwn yn cynnal ymgynghoriadau ar gyfer grwpiau amrywiol gan ddechrau yn fuan. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriadau hyn yn cael eu defnyddio i arwain a sbarduno gweithred tuag at adferiad natur yng Ngwynedd a Llŷn, felly byddem yn eich annog i gymryd rhan lle y gallwch.

2.4 Am ragor o wybodaeth am y Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cenedlaethol, ewch i wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru drwy glicio ar y ddolen ganlynol: [Wales Biodiversity Partnership - Nature Recovery Action Plan \(biodiversitywales.org.uk\)](http://biodiversitywales.org.uk)

### **3.0 ARGYMHELLIAD**

3.1 Derbyn yr wybodaeth.

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	Mawrth 29ain 2023
<b>TEITL</b>	Gwynedd ac Eryri 2035 - Cynllun Strategol ar gyfer yr Economi Ymweld
<b>PWRPAS</b>	Gwybyddu aelodau
<b>AWDUR</b>	Swyddog AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr wybodaeth

## 1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Yn ddiweddar mae Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi adolygu eu blaenoriaethau a'u cynlluniau ar gyfer yr economi ymweld yn yr ardal. Cychwynnodd adolygiad o'r Cynllun Rheolaeth Cyrchfan yn 2018 gyda chyfres o weithdai ar gyfer y sector twristiaeth a chynrychiolwyr cymunedau. Yn sgil Covid-19 bu pwysau eithriadol ar gymunedau ar draws Gwynedd ac Eryri gyda nifer ymwelwyr di-gynsail a'r ardal. Mae'r cyfnod hwn wedi amlygu rhai materion y mae angen ymateb iddynt er mwyn cefnogi economi ymweld cynaliadwy yn yr ardal.
- 2.0 Ym mis Tachwedd 2021 fe arwyddodd Cyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol Gytundeb o Ddealltwriaeth. Amcan y Cytundeb yw *cydweithio'n effeithiol ac effeithlon mewn partneriaeth i wireddu gweledigaeth ac egwyddorion Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035 i warchod a hyrwyddo gwerthoedd arbennig yr ardal.*

## 2.0 Y PRIF FATERION

- 2.1 Wrth baratoi y Cynllun gwelwyd fod nifer o brif faterion yn codi:
- Pwysau ar ardaloedd a gwasanaethau cyhoeddus e.e. meysydd parcio, biniau, ffyrdd, ardaloedd gwledig.
  - Covid wedi creu tensiynau mewn rhai ardaloedd gyda niferoedd ymweld digynsail.
  - Lefelau cyflogau a chyflogaeth tymhorol o fewn y sector twristiaeth.
  - Diffyg amrywiaeth yn yr economi wledig a gor-ddibyniaeth posib ar dwristiaeth
  - Teimladau negyddol o fewn i rai cymunedau ac ardaloedd, ond gall bod cyfleon os gweithredir yn wahanol.
  - Effaith posib ar yr iaith a chymunedau a'r amgylchedd
  - Angen Mesuryddion gwell i fesur unrhyw effeithiau negyddol a chadarnhaol.
  - Cyfle i blethu Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy i ddatblygiad Cynlluniau Adfywio Ardal ar draws Gwynedd.

## 3.0 PARATOI CYNLLUN DRAFFT

- 3.1 Yn ystod 2022 cynhaliwyd 5 digwyddiad trwy Zoom i drafod yr economi ymweld yng Ngwynedd ac Eryri. Cynhaliwyd sesiynau hefyd i gynghorwyr ar draws Gwynedd. Yn dilyn adborth o'r gweithdai hyn yn ogystal â rhai blaenorol, fe ddatblygodd Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri gynllun drafft. Hefyd rhoddwyd sylw i arfer da o ardaloedd eraill o Ewrop ac yn rhyngwladol.
- 3.2 Yn ogystal sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen Economi Ymweld Cynaliadwy i gynghori'r Cyngor a'r Parc Cenedlaethol ar gynnwys y Cynllun Strategol, y dulliau mesur effaith a'r dulliau gweithredu priodol. Roedd gan yr Uned AHNE gynrychiolaeth ar y grŵp yma. Mae adborth y Grŵp Tasg a Gorffen oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o gymunedau, busnesau a phrif bartneriaid wedi ei ymgorffori yn y Cynllun terfynol a'r modelau gweithredu.
- 3.3 Hefyd cynhaliwyd Asesiad Effaith er mwyn asesu unrhyw effaith ar nodweddion cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol. Mae'r Asesiad hwnnw'n cydnabod bod bylchau yn y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Strategol ac ymgynghori gyda grwpiau gyda nodweddion gwarchoddedig – ond bwriedir ymgysylltu'n benodol gyda chynrychiolwyr ar ran pobl a nodweddion gwarchoddedig er mwyn cael gwell dealltwriaeth o'u hanghenion ac ymateb iddynt trwy'r Cynllun Gweithredu fydd yn cael ei gytuno arno. Mae'r Asesiad yn nodi bod modd i'r Cynllun gael effaith positif os bydd yn cael ei weithredu a'i fonitro'n effeithiol ac effeithlon gan y strwythurau gweithredu fydd yn cael eu mabwysiadu.

#### **4.0 Y CYNLLUN STRATEGOL**

- 4.1 Y Weledigaeth a osodwyd ar gyfer y Cynllun Strategol Gwynedd ac Eryri yw *Economi ymweld er budd a lles pobl, amgylchedd, iaith a diwylliant Gwynedd ac Eryri*.
- 4.2 Hefyd diffiniwyd Egwyddorion ac Amcanion Economi Ymweld Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Gellir gweld yr egwyddorion isod:
1. Dathlu, Parchu a Gwarchod ein Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth
  2. Cynnal a Pharchu ein Hamgylchedd
  3. Sicrhau bod cymunedau Gwynedd ac Eryri'n cael mwy o fantais nac anfantais
- 4.3 **Cyllid** - er gwaetha'r rhagolygon ariannol mae disgwyl y bydd y Cynllun yn dylanwadu ar bolisiau eraill Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a phartneriaid yn y maes cynllunio, rheoli cyrchfan, rheoli'r amgylchedd, hyfforddiant a sgiliau, adfywio, cefnogi busnes, digwyddiadau ayb gan ychwanegu gwerth trwy newid pwyslais gweithgareddau neu bolisiau. Gobeithir y bydd y Cynllun Strategol a'r Cynllun Gweithredu yn agor drysau at arian Llywodraethau Prydain a Chymru a chronfeydd ariannu eraill yn y dyfodol.

- 4.4 Mae Cynllun Strategol Gwynedd ac Eryri 2035 wedi ei fabwysiadu fel Cynllun Strategol ar gyfer yr Economi Ymweld yn yr ardal gan Barc Cenedlaethol Eryri a hefyd gan Gabinet Cyngor Gwynedd (14eg o Chwefror 2023).
- 4.5 Hefyd penderfynwyd sefydlu Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 er mwyn datblygu, gweithredu a monitro'r Cynllun Strategol, Cynllun Gweithredu Gwynedd ac Eryri 2035 a'i fesuryddion perthnasol.
- 4.6 Gellir gweld copi o'r Cynllun cyflawn drwy ddilyn y linc:  
[Layout 1 \(llyw.cymru\)](#)

## **5.0 ARGYMHELLIAD**

- 5.1 Derbyn yr wybodaeth

# Eitem 7

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	Mawrth 29ain 2023
<b>TEITL</b>	Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy
<b>PWRPAS</b>	Gwybyddu Aelodau
<b>AWDUR</b>	Swyddog AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr wybodaeth

## 1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys newyddion am brosiectau cyfalaf Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy AHNE Llŷn. Cynllun grant gan Llywodraeth Cymru i gefnogi prosiectau yn y Parciau Cenedlaethol a'r AHNE yw Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy (TCLIC).
- 1.2 Cafodd yr 8 Tirwedd Dynodedig yng Nghymru gyfle i gyflwyno prosiectau cyfalaf ar gyfer 3 blynedd (2022-25). Y themâu a osodwyd ar gyfer prosiectau oedd:
- Bioamrywiaeth ac adfer natur
  - Dad-garboneiddio
  - Cymunedau gwydn a gwyrdd
  - Twristiaeth Gynaliadwy
- 1.3 Roedd disgwyl trawsdoriad o brosiectau gan bob ardal.

## 2.0 PROSIECTAU 2022-23 AHNE LLYN

- 2.1 **Cylchdaith Gyrn Goch** - Roedd y gylchdaith hon ar gau oherwydd fod y bont dros afon Hen wedi pydru ac yn amhosibl ei chroesi. Prif ffocws y prosiect felly oedd gosod pont newydd dros yr afon er mwyn ail-agor y gylchdaith a chreu mynediad i goedwig gerllaw a thir mynediad Gyrn Goch. Gwnaed gwelliannau eraill i'r daith hefyd trwy gyfnewid camfa am giât ac ail-wynebu rhan o'r llwybr. Cylchdaith eithaf byr yw hon ond mae'n darparu cyfle i gerdded drwy amryw o dirweddau yn cynnwys coedwig a thir heb ei wella efo amryw o blanhigion gwyllt.
- 2.2 **Fan drydan Warden yr AHNE** - Fel rhan o'r ymdrech i ddad-garboneiddio gwasanaethau'r AHNE a Chyngor Gwynedd fe ddefnyddiwyd cyfran o'r grant cyfalaf i brynu fan drydan ar gyfer Warden yr AHNE. Roedd hyn yn golygu cael gwared ar yr hen fan ddisl a lleihau ôl troed carbon y gwasanaeth. Defnyddir pwyntiau sydd yn swyddfeydd Ffordd y Cob, Pwllheli i wefru'r fan ac yn achlysurol rhai'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- 2.3 **Tir Comin**- Prosiect cyffrous arall gan yr Uned yw asesu a gwella rhai tiroedd comin Rhos Botwnnog, Foel Gron Mynytho, a Horeb/Mynytho. Yn y flwyddyn ariannol 2022-23 fe wnaed arolygon ecolegol o'r tiroedd comin dan sylw. Yn y

blynyddoedd nesaf byddwn yn gweithredu mesurau i adfer/gwella cyflwr y tiroedd (e.e. gwella cynefinoedd, gwaredu rhywogaethau ymledol), gwella rheolaeth, lleihau risgiau tân ac ati. Mae'r prosiect hefyd yn anelu at wella mynediad a dehongliad i'r tiroedd yma.

- 2.4 **Y Ganolfan, Llithfaen** - Mae'r Ganolfan yn adeilad pwysig mhentref Llithfaen a'r ardal o amgylch. Hyd yn ddiweddar roedd cyfarfodydd a gweithgareddau amrywiol yn cael eu cynnal yma ac roedd dau fwrdd snwcer oedd yn cael eu defnyddio'n gyson. Yn ystod y cyfnod clo datblygodd problem efo pydredd sych yn Y Ganolfan a daeth yn amlwg fod angen gwelliannau sylweddol cyn y gellid ail-agor yr adeilad. Ym mlwyddyn 2022-23 bu i arian cyfalaf TCLC gyfrannu at arolwg cyflwr trylwyr o'r Ganolfan a llunio Cynllun Busnes ar gyfer y dyfodol.
- 2.5 **Gwelliannau Mynediad** - bu i'r grant cyfalaf TCLIC hefyd gefnogi gwelliannau mynediad ac arwyddo ar safleoedd arfordirol yn Mynydd Tir y Cwmwd, Porth Ysgo a Porthor.
- 2.6 **Terfynau Traddodiadol** - Prosiect ar y cyd gyda ardaloedd dynodedig eraill gogledd Cymru yw hwn. Ei bwrpas yw cynnal ac adfer terfynau traddodiadol – waliau cerrig, cloddiau a gwrychoedd. Yn ogystal â bod yn nodweddion diddorol ar y tirlun mae'r terfynau hyn yn gynefinoedd bywyd gwyllt pwysig. Fel rhan o'r prosiect bu Uned AHNE Llŷn yn cydweithio gyda Parc Cenedlaethol Eryri i gynnig grantiau i gynnal ac adfer terfynau traddodiadol yn ardal Madryn, Llŷn.
- 2.7 **Yr Awyr Dywyll** - Eto prosiect ar y cyd gyda thirluniau dynodedig eraill oedd hwn. Eisoes mae cryn waith wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd yr awyr dywyll trwy Bartneriaeth Nos. Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar hynny ac yn cynnwys penodi ymgynghorwyr i wneud arolygol o oleuadau mewn ardaloedd ac adnabod cyfleon i osod goleuadau newydd, llai niweidiol i'r awyr dywyll. Yn dilyn hynny bydd y prosiect yn symud ymlaen i wireddu'r gwelliannau er budd yr awyr dywyll a'r amgylchedd yn gyffredinol.

### 3.0 **ARGYMHELLIAD**

- 3.1 Derbyn y wybodaeth.

# Eitem 8

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	Mawrth 29ain 2023
<b>TEITL</b>	Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy
<b>PWRPAS</b>	Diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy
<b>AWDUR</b>	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Derbyn yr wybodaeth

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon er gwybodaeth, am sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy hyd yma a datblygiadau sydd ar y gweill yn ymwneud â hi.

## 2.0 GWARIANT 2022/23

2.1 Roedd **£100,000** yn y Gronfa ar ddechrau 2022/23 ac fe lwyddwyd i ddyrannu **£92,149.52** (yn cynnwys £10,000 o gostau gweinyddol), felly roedd tanwariant bychan o £7,850.48. Bu tanwariant o £5,265.50 o fewn un prosiect, a bu rhaid i un prosiect dynnu yn ôl.

2.2 Dyma rhestr o'r prosiectau a gefnogwyd:

CDC 20.1	Amgueddfa Forwrol Llŷn	£2,775
CDC 22.2	Bws Fflecsi Llŷn	£10,060
CDC 22.3	Giât Mynwent Llandegwning	£367.50
CDC 22.4	Gŵyl R S Thomas	£1,725
CDC 22.5	Eglwys Newydd Aberdaron	£5,265.5
CDC 22.6	Arddangosfa Sarn	£772.50
CDC 22.7	Clwb Hwyllo Aberdaron	£2,925
CDC 22.8	Cae Chwarae Llithfaen	£9,400
CDC 22.11	Ffenestri Hafod Ceiri	£12,100
CDC 22.12	Arolwg Archeolegol Coedlan Carl	£3,000
CDC 22.13	Aberdesach	£4,500
CDC 22.17	Melin Daron	£19,841
CDC 22.18	Plas Carmel	£3,803.25
CDC 22.19	Hysbysfyrdau Cymuned Aberdaron	£1,273.98
CDC 22.20	Cyflenwyr Dosbarthu Bagiau Baw Cŵn	£793.95
CDC 22.21	Neuadd Abersoch	£2,114.84

## 3.0 BLYNYDDOEDD 2023/25

3.1 Mae cyllid o **£100,000** ar gael ar gyfer 2023/24 a **£100,000** eto ar gyfer 2024/25. Mae hyn yn rhoi cyfle i brosiectau gael eu hariannu dros gyfnod o ddwy flynedd yn hytrach na blwyddyn os oes angen.



- 3.2 Yn y canllawiau mwyaf diweddar mae Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o bwyslais ar y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a rhoi blaenoriaeth i brosiectau sydd yn cyd fynd ar themâu Adfer natur, a Dad-garboneiddio.
- 3.3 Mae'r gwaith o hyrwyddo'r cyfle i ymgeisio am grant o'r Gronfa eisoes wedi dechrau. Anogir yr aelodau i rannu'r wybodaeth am y Gronfa.

#### **4.0 ARGYMHELLIAD**

- 4.1 Derbyn y wybodaeth uchod.

# Eitem 9

<b>PWYLLGOR</b>	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
<b>DYDDIAD</b>	Mawrth 29ain 2023
<b>TEITL</b>	Dynodiad Awyr Dywyll
<b>PWRPAS</b>	Gwybyddu Aelodau a cheisio cefnogaeth
<b>AWDUR</b>	Swyddog Prosiect AHNE
<b>ARGYMHELLIAD</b>	Cefnogi y bwriad i weithio tuag at gais statws Awyr Dywyll i ardal Pen draw Llŷn

## 1.0 CYFLWYNIAD

- 1.1 Ers peth amser mae'r Uned AHNE wedi bod yn gweithio tuag at geisio am statws Awyr Dywyll Rhyngwladol ar gyfer ardal AHNE Llŷn. Mae'r mater wedi ei drafod yn y Cydbwyllgor ond hyd yma does dim perderfyniad wedi ei wneud.
- 1.2 Sylweddolir fod ardal yr AHNE i gyd yn eithaf mawr ac mae gwahaniaethau o fewn yr ardal. Mae casglu data am yr holl ardal yn gryn sialens.
- 1.3 Yn hytrach na cheisio dynodi yr holl AHNE fel ardal o Awyr Dywyll Rhyngwladol mae'r Uned AHNE yn awr yn ystyried canolbwyntio ar ardal benodol ar drwyn y Penrhyn.

## 2.0 NODDFA AWYR DYWYLL ENLLI

- 2.1 Cafodd Ynys Enlli ei ddynodi'n Noddfa Awyr Dywyll ar y 23ain o Chwefror 2023. Enlli yw'r safle cyntaf yn Ewrop i dderbyn yr ardystiad yma, diolch i lygredd golau isel yr ynys.
- 2.2 Dyma oedd gan cyfarwyddwr gweithredol y Sefydliad Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA) i'w ddweud "Mae Cymru'n prysur ddod yn un o'r cenhedloedd mwyaf blaenllaw o ran amddiffyn awyr dywyll fel adnodd gwerthfawr sydd o fudd i bobl a bywyd gwyllt."
- 2.3 Cafodd y newyddion fod Ynys Enlli wedi ei ddynodi'n Noddfa Awyr Dywyll ei ddaliedu ar hyd y wlad, gan godi ymwybyddiaeth am Enlli a Llŷn. Gall y dynodiad yma fod o fudd i'r sector twristiaeth ar adegau distaw o'r flwyddyn. Mae Parc Cendlaethol Eryri eisioes yn gweld y byddion o gael ei ddynodi yn Warchodfa Awyr Dywyll.

## 3.0 CAIS AM STATWS AWYR DYWYLL I RAN O AHNE LLŷN

- 3.1 Y Sefydliad Awyr Dywyll Ryngwladol (IDA) sydd wedi sefydlu y cysyniad o ardaloedd Awyr Dywyll ac yn rheoli y broses ddynodi. Mae gwahanol fathau o ddynodiadau yn bosibl – yn cynnwys statws Noddfa, Cymuned, Parc a Gwarchodfa. Mae staff yr Uned wedi cael cyfarfod ar lein gyda staff yr IDA ac maent yn gefnogol iawn i'r bwriad o wneud cais am statws Awyr Dywyll ar gyfer yr ardal hon.

- 3.2 Mae trafodaeth wedi bod yn y Cydbwyllgor am y posibilrwydd o gefnogi cais am staws awyr dywyll ar salw achlysur. Bryd hynny roedd rhai pryderon am effaith posibl y dynodiad.
- 3.3 Yn sicr mae ardal yr AHNE yn ei gyfanrwydd yn eithaf eang ac mae cryn amrywiaeth o ran tywyllwch nos ayb. Hefyd mae monitro yr awyll dywyll ar draws yr holl ardal yn gryn sialens.
- 3.4 Oherwydd hynny, a'r ffaith fod Ynys Enlli bellach wedi derbyn statws Noddfa Awyr Dywyll mae'r Uned AHNE, mewn cydweithrediad gyda Prosiect NOS, yn ystyried ceisio am statws Awyr Dywyll i'r ardal ar drwyn y Penrhyn – ardal Cymuned Pen draw Llŷn. Dyma hefyd yw un o'r ardaloedd tywyllaf yn yr AHNE.
- 3.5 Fel rhan o'r broses ymgeisio am y Statws Awyr Dywyll bydd angen paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol a chreu rhaglen o ddigwyddiadau i godi ymwybyddiaeth.

## **6.0 ARGYMHELLIAD**

- 6.1 Cefnogi bwriad yr Uned AHNE i weithio tuag at wneud cais am ddynodiad Awyr Dywyll i ardal Pen draw Llŷn.